# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff M Evans, John Griffith, Kenneth P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard O Jones |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Swyddog Cynllunio (MTD) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd R Ll Jones (ar gyfer Eitem 12.3 - Parc Gwledig y Morglawdd, Caergybi) |

---

**1. 11C500A – MONA SAFETY PRODUCTS, STRYD WESLEY, AMLWCH**

**Cais llawn i newid defnydd yr adeilad yn 6 fflat ynghyd â gwaith altro a dymchwel rhan o'r adeilad yn Mona Safety Products, Stryd Wesley, Amlwch.**

Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod y cais yn un i addasu'r hen gapel yn fflatiau ac y byddai llecynnau parcio ar gael o flaen a'r tu cefn i'r rhan o'r adeilad a fyddai'n cael ei dymchwel.

Yn dilyn sylwadau gan aelodau, eglurwyd bod y caniatâd cynllunio wedi cael ei roddi mewn apêl ond bod y cyfnod wedi dod i ben ac mai defnydd masnachol oedd yn cael ei wneud o'r safle eisoes.

**2. 19LPA875B/CC – PARC GWLEDIG Y MORGLAWDD, CAERGYBI**

**Cais llawn i newid rhan o'r tir yn faes carafanau teithiol (28 llecyn), codi bloc cawodydd/toiledau ynghyd â ffurfio ffordd fynedfa newydd ym Mharc Gwledig y Morglawdd, Caergybi.**

Teithiodd yr aelodau ar hyd y ffordd i'r Parc Gwledig a dangoswyd iddynt natur a lled y lôn, ei ffiniau a'r llefydd pasio cyfredol. Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod y lôn fawr gyhoeddus yn dod i ben ger Siediau Peiriannau Stena a bod y lôn o'r fan honno'n lôn breifat sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ac yn cael ei chynnal a'i chadw ganddo. Eglurodd mai'r argymhelliad oedd cael dau le pasio ychwanegol ar y lôn fawr gyhoeddus er mwyn hwyluso symudiadau traffig. Dangoswyd i'r aelodau'r lôn breifat sy'n arwain i'r Parc a'i lefydd pasio a'r llwybr i gerddwyr sy'n rhedeg yn gyfochrog â hi.

Yn y Parc, dangoswyd i’r aelodau safle arfaethedig y datblygiad ar gyfer carafanau teithiol a’r bloc cawodydd ac eglurodd y swyddog osodiad arfaethedig y lôn.

Fel aelod lleol, dygodd y Cynghorydd R Ll Jones sylw at y creigiau serth y tu cefn i’r safle a’r cynefin i fywyd gwyllt lleol.